



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG54060

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Mesurau rheoli pysgota am gregyn bylchog yng Nghymru

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar 14 o newidiadau arfaethedig i fesurau rheoli pysgota am gregyn bylchog yng Nghymru a gynhaliwyd rhwng 24 Hydref 2025 a 31 Ionawr 2026.

Daeth 36 o ymatebion i law erbyn y dyddiad cau. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr safbwyntiau manwl ac ystyriol ynghylch manylion y mesurau arfaethedig a'u gweithredu. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r adborth i'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei ystyried ar wahân.

Y Camau i'w Cymryd

Darperir y ddogfen hon er gwybodaeth. Bydd yr adroddiad a'r dystiolaeth gysylltiedig yn cael eu defnyddio i gefnogi argymhellion polisi yn y dyfodol.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras a Braille o'r ddogfen hon ar gael ar gais ynghyd â chopïau mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Pysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Pysgodfeydd@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a'r ddogfen ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: [Mesurau rheoli pysgota am gregyn bylchog yng Nghymru \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	4
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau	5
Dadansoddiad o'r ymatebion.....	6
Crynodeb o'r ymatebion testun rhydd ar gyfer pob cwestiwn	6
Themâu cyffredinol yn yr ymatebion	19

Mesurau rheoli pysgota am gregyn bylchog yng Nghymru

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Lansiwyd ymgynghoriad ar gynigion i newid mesurau rheoli pysgota am gregyn bylchog (*pecten maximus*) yng Nghymru ar 24 Hydref 2025 a daeth i ben ar 31 Ionawr 2026. Prif bwrpas yr ymgynghoriad oedd ceisio barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar ystod o newidiadau arfaethedig i fesurau rheoli cregyn bylchog yng Nghymru yn dilyn ymrwymadau polisi a wnaed yn y cynllun rheoli pysgodfeydd ar gyfer cregyn bylchog yn nyfroedd Cymru a Lloegr (2023).

Datblygwyd yr ymgynghoriad gyda Grŵp Cynghori Cymru ar Gregyn Bylchog. Cynhaliodd swyddogion sawl sesiwn ymgysylltu i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau am y cynigion i annog rhanddeiliaid i gyflwyno eu safbwyntiau. Ymgysylltodd swyddogion hefyd â chynrychiolwyr Comisiwn yr UE ac Aelod-wladwriaethau.

Dewisodd llawer o ymatebwyr aros yn ddiennw. Mae polisi Llywodraeth Cymru hefyd wedi newid ers i'r ymgynghoriad gael ei lansio i ddiennw oni bai y gofynnir fel arall. Er mwyn sicrhau anhysbysrwydd yr ymatebwyr sydd wedi gofyn am fod yn ddiennw, mae Llywodraeth Cymru wedi anonymaiddio pob ymateb yn yr adroddiad hwn.

Dadansoddiad o'r ymatebion

Daeth cyfanswm o 36 o ymatebion i law:

- Cyflwynwyd 27 o ymatebion drwy'r ffurflen SmartSurvey ar-lein.
- Daeth 9 ymateb trwy flwch e-bost yr Is-adran Pysgodfeydd.

Roedd un ymateb yn Gymraeg ac roedd 35 yn Saesneg.

Dadansoddiad o'r ymatebwyr

6 Sefydliad y diwydiant pysgota

25 ymateb gan aelodau'r cyhoedd (gan gynnwys busnesau pysgota a physgotwyr).

3 Sefydliad Anllywodraethol amgylcheddol (eNGO).

2 Gorff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC))

Daeth 21 o ymatebion i law gan ddinasyddion/busnesau wedi'u lleoli yng Nghymru.

Daeth 12 o ymatebion i law gan ddinasyddion/busnesau wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

Ni wnaeth 1 ymatebydd ddarparu manylion.

Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau

Gofynnwyd 17 cwestiwn. Roedd pob cwestiwn yn rhoi'r opsiwn i ddangos cefnogaeth neu wrthwynebiad i'r newid arfaethedig neu 'ddim yn gwybod'. Roedd pob cwestiwn hefyd yn caniatáu blwch testun rhydd i'r ymatebydd ddarparu barn a thystiolaeth i gefnogi eu safbwynt i wneuthurwyr polisi eu hystyried wrth asesu sut i symud ymlaen.

- Roedd 13 yn gysylltiedig â physgodfa cregyn bylchog
- Roedd 1 yn gysylltiedig â physgodfa cregyn y frenhines (*aequipecten opercularis*)
- Roedd 2 yn ymwneud â'r Gymraeg
- Roedd 1 cwestiwn agored ar gyfer unrhyw safbwyntiau nad oeddent wedi'u cwmpasu gan y cwestiynau penodol ar bob cynnig

Nid oedd pob ymateb yn ateb pob cwestiwn ac nid oedd nifer o'r ymatebion dros e-bost yn defnyddio'r fformat holiadur i ddarparu eu sylwadau. Lle roedd y testun yn dangos cefnogaeth neu wrthwynebiad i gwestiynau'r ymgynghoriad, mae hyn wedi'i gynnwys yn y crynodeb cyffredinol ond nid oedd hyn bob amser yn bosibl.

Tabl 1: Crynodeb o ganlyniadau'r ymatebwyr o ran a ydynt yn cytuno â phob cynnig yn yr ymgynghoriad ar fesurau rheoli pysgota am gregyn bylchog yng Nghymru

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw (%)	Nac ydw (%)	Ddim yn gwybod (%)	Gwag
1	27	4	3	2	75	11	8	6
2	21	11	1	3	58	31	3	8
3	28	5	2	1	78	14	6	3
4	32	3	0	1	89	8	0	3
5	31	2	2	1	86	6	6	3
6	26	7	1	2	72	19	3	6
7	29	3	3	1	81	8	8	3
8	25	9	1	1	69	25	3	3
9	28	4	3	1	78	11	8	3
10	29	3	2	2	81	8	6	6
11	32	1	1	2	89	3	3	6
12	31	2	1	2	86	6	3	6
13	28	5	1	2	78	14	3	6
14	25	1	8	2	69	3	22	6

Mae Tabl 1 yn dangos niferoedd a chanrannau'r atebion gan ymatebwyr i'r cwestiwn a ydynt yn cytuno "ydw" neu "nac ydw" â phob un o'r 14 cynnig yn ymgynghoriad mesurau rheoli pysgota am gregyn bylchog yng Nghymru

Tabl 2: Ymatebion i'r cwestiwn cyffredinol yn ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg

	Cyfanswm y ffigurau	Cyfanswm y canrannau
--	---------------------	----------------------

Rhif y cwestiwn	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw (%)	Nac ydw (%)	Ddim yn gwybod (%)	Gwag
15	6	4	18	8	17%	11%	50%	22%

Mae Tabl 2 yn dangos niferoedd a chanrannau'r atebion gan ymatebwyr i'r cwestiwn a ydynt yn cytuno "ydw", "nac ydw" neu ddim yn gwybod (neu wedi'i adael yn wag) â'r cwestiwn o ran effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg?

Roedd cwestiwn 15 yn ymwneud â'r Gymraeg.
Roedd cwestiynau 16 a 17 yn ymatebion testun rhydd yn unig.

Dadansoddiad o'r ymatebion

Daeth ymatebion i'r arolwg i law gan randdeiliaid a oedd yn cynrychioli ystod o ddi-ddordebau o bysgota masnachol i grwpiau amgylcheddol ac o bob rhan o'r DU.

Ni ddaeth unrhyw ymatebion i law gan randdeiliaid wedi'u lleoli yn Aelod-wladwriaethau'r UE.

Roedd nifer yr ymatebion cadarnhaol yn fwy na'r ymatebion negyddol ar gyfer pob cynnig, gan awgrymu, yn eu crynswth, bod rhanddeiliaid o blaid yr holl gynigion.

Y cynnig lleiaf poblogaidd oedd cyflwyno ffi ar gyfer trwydded cregyn bylchog i Gymru gyfan. Er hynny, cafodd y cynnig hwn hyd yn oed 58% o gefnogaeth o'i gymharu â 31% yn ei erbyn.

Crynodeb o'r ymatebion testun rhydd ar gyfer pob cwestiwn

Roedd rhai o'r sylwadau a gyflwynwyd am gynigion unigol yn gysylltiedig yn agosach â chynigion eraill. Yn yr achosion hynny mae'r sylwadau wedi'u dadansoddi gyda'r cynnig perthnasol yn hytrach na lle gwnaethpwyd y sylwadau.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno trwydded cregyn bylchog Cymru gyfan flynyddol ar gyfer pob cwch sy'n dal cregyn bylchog ym mha ddull bynnag ym mharth Cymru?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
1	27	4	3	2	75%	11%	8%	6%

Roedd tri chwarter yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. O'r ymatebwyr a gefnogodd y cynnig hwn ac a ddarparodd eu rhesymeg, nododd sawl un fanteision posibl cyfundrefn drwyddedu i'r nod o reoli addasol yn ogystal â chael un system i

reoli'r bysgodfa ar draws pob dull pysgota. Dyfynnwyd sawl astudiaeth academaidd a gwnaed cymariaethau ag awdurdodaethau eraill gan gynnwys Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCAs) Dyfnaint a Hafren a Gogledd-orllewin Lloer ac Ynys Manaw.

Gwnaeth y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn hynny yn bennaf ar y sail nad oedd digon o fanylion wedi'u darparu ynglŷn â sut yn union y byddai'r system drwyddedu yn gweithredu. Cwestiynodd nifer fach o ymatebwyr yr angen am haen ychwanegol o waith gweinyddol yn y rhan ar y môr o'r parth a chodwyd pryderon am gymhlethdod a chost.

Codwyd pryderon y gellid defnyddio'r cynnig hwn i weithredu dull "un ateb sy'n addas i bawb" o reoli pysgodfeydd a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar gychod mwy sy'n gweithredu yn y rhan ar y môr o barth Cymru.

Nid oedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo yr ymgysylltwyd â "diwydiant" yn ddigonol wrth ddatblygu'r cynigion.

Daeth sawl un o'r ymatebion, cadarnhaol a negyddol, i'r casgliad y gellid defnyddio system drwyddedu i reoli nifer y cychod. Roedd y ddogfen ymgynghori yn ei gwneud hi'n glir, fodd bynnag, nad oedd y cynnig am drwydded Cymru gyfan wedi'i fwriadu i gyfyngu ar nifer y cychod sydd â mynediad i bysgodfa cregyn bylchog ym mharth Cymru y tu hwnt i'r cyfyngiadau presennol o ran hawl i drwydded.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i godi tâl am wneud cais am drwydded?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
2	21	11	1	3	58%	31%	3%	8%

Er bod dros hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, dyma'r cynnig a gododd y mwyaf o wrthwynebiadau hefyd.

Roedd ymatebion o blaid y cynnig hwn yn bennaf ar y sail ei bod yn rhesymol i weithrediadau masnachol gyfrannu at y gost o reoli ac i sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer y gofynion tystiolaeth. Pwysleisiodd sawl ymateb cadarnhaol fod yn rhaid i unrhyw ffi fod yn rhesymol ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

Nododd sawl un o'r ymatebion cadarnhaol y dylai fod eithriadau i ffioedd ar gyfer dulliau pysgota llai dinistriol neu offer neu gychod llai neu y dylai'r ffioedd fod yn gymesur â gweithgarwch pysgota mewn rhyw ffordd arall, er enghraifft maint y cwch neu nifer y llusgrwydi a ddefnyddir.

Darparwyd manylion am fecanwaith ariannu 'gorddalfa' amgen ar gyfer arolygon gwyddonol a ddefnyddir yn Ynys Manaw gan un derbynydd. Mae gan y cynllun hwn y fantais o ganiatáu i bysgotwyr bysgota hyd at eu terfyn heb sancsiynau os yw'r referniw o'r 'orddalfa' yn cael ei dalu tuag at gost arolwg gwyddonol.

Nododd ymatebion yn erbyn y cynnig hwn fod pysgota, ac yn enwedig llusgrwydo am gregyn bylchog, yn fusnes â chostau mewnbwn uchel eisoes. Codwyd pryderon y gallai costau pellach wneud rhai gweithrediadau yn anhyfyw. Nododd sawl ymatebydd y disgwyliad y dylid cwblhau rhyw fath o asesiad effaith economaidd i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn. Ni ddarparodd unrhyw ymatebwyr unrhyw ffigurau i gynorthwyo gydag asesiad effaith economaidd.

Nododd sawl ymatebydd hefyd fod rhai pysgotwyr yn targedu sawl rhywogaeth trwy gydol y flwyddyn. Dylid ystyried costau cronol ar gyfer pysgodfeydd eraill a ganiateir, fel cregyn moch.

Roedd un ymatebydd yn deall y rhesymeg dros godi ffi am drwydded ond nid oedd yn ei gefnogi a gofynnodd i'w gweithredu gael ei gohirio nes y gallai cyllid y diwydiant ehangach reoli'r gost ychwanegol.

Nododd un ymatebydd nad yw ffioedd yn cael eu codi i bysgota am stociau cwota gyda'r dystiolaeth wyddonol angenrheidiol yn cael ei hariannu gan lywodraethau a chwestiynodd pam nad oes dull tebyg yn cael ei fabwysiadu ar gyfer stociau heb gwota.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno terfynau amrywiol ar ddalfeydd ar gyfer cregyn bylchog ym mharth Cymru?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
3	28	5	2	1	78%	14%	6%	3%

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, gan gynnwys busnesau a sefydliadau pysgota, mynegodd llawer gefnogaeth gymwysedig ar y sail y dylai terfynau dalfeydd:

- fod yn seiliedig ar dystiolaeth stoc gadarn
- gael ei ddatblygu gyda'r busnesau pysgota masnachol yr effeithir arnynt
- peidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw segmentau fflyd
- gellid ei gyfuno â rheoli gofodol
- osgoi canlyniadau anfwriadol.

Adleisiwyd y pwyntiau hyn gan rai o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig. Cyfeiriodd sawl ymatebydd yn ffafriol at y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Ynys Manaw. Rhannodd rhanddeiliad yn Ynys Manaw rai gwersi a ddysgwyd o weithredu terfynau amrywiol ar ddalfeydd fel symud tuag at derfynau mwy deinamig ar ddalfeydd sy'n gysylltiedig â chynlluniau pysgota ar gyfer cychod unigol.

Roedd un person yn meddwl y dylai terfynau dalfeydd fod yn glir ac yn sefydlog o'r dechrau yn hytrach nag yn newidiol.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS) amrywiol ar gyfer cregyn bylchog ym mharth Cymru a newid yr MCRS ar y môr i'r de o 52°30'G o 100mm i 110mm?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
4	32	3	0	1	89%	8%	0%	3%

Cyflwyno Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS) amrywiol ym mharth Cymru a'i osod ar 110mm trwy'r parth oedd y cynnig mwyaf poblogaidd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn gwella iechyd stociau cregyn bylchog. Cymeradwyodd sawl ymatebydd gael un maint ym mharth Cymru ac awdurdodaethau eraill.

Awgrymodd un person y dylai fod eithriad ar gyfer cregyn bylchog ifanc 25mm llai a gesglir i dyfu mewn ffermydd dyframaethu.

Argymhellodd dau ymatebydd dreialu terfyn uchafswm maint hefyd i amddiffyn y silwyr mwyaf ffrwythlon a gwella recriwtio.

Nododd sawl ymatebydd y dylai'r gallu i amrywio'r MCRS ym mharth Cymru fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac y gellid ei ddefnyddio i reoli dulliau pysgota cregyn bylchog eraill fel plymio i ddal â llaw neu bysgota â chewyll.

Roedd y 3 ymatebydd a wrthwynebodd y cynnig o'r farn bod y mesur yn ddiangen.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno gofynion System Monitro Cychod (VMS) amrywiol ar gyfer pob cwch sy'n pysgota am gregyn y brenin ym mharth Cymru a gosod amlder trosglwyddo data VMS o 10 munud ar gyfer cychod dros 12 metr o hyd ym mharth Cymru ar y môr?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
5	31	2	2	1	86%	6%	6%	3%

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn yn fawr. Mae'r sylwadau yn awgrymu mai tegwch yw'r brif resymeg dros y gefnogaeth hon. Mae pwyntiau eraill a wnaed i gefnogi yn cynnwys data lleoliad priodol ar gyfer gwaith gorfodi a chasglu data ar gyflymder tynnu cyffredin, gan ddyfynnu astudiaethau academaidd.

Nododd sawl ymatebydd fod natur amrywiol y cynnig yn synhwyrol er mwyn addasu i dechnoleg sy'n newid yn gyflym.

Gwnaeth y ddau ymatebydd a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hynny ar y sail y gallai gynyddu costau i bysgotwyr neu fod AIS (systemau adnabod awtomatig), sydd gan y rhan fwyaf o gychod, yn gwneud gwaith digonol eisoes.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno monitro electronig o bell (REM) gyda chamerau a synwryddion ar gyfer pysgota am gregyn y brenin ym mharth Cymru?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
6	26	7	1	2	72%	19%	3%	6%

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Roedd y rhesymau a roddwyd dros gefnogi yn cynnwys systemau presennol ar gyfer pysgota yn nyfroedd yr Alban, tystiolaeth ar gyfer gorfodi, tystiolaeth a oedd yn dangos arferion da yn cael eu rhoi ar waith a thystiolaeth i lywio penderfyniadau rheoli pysgodfeydd ymatebol.

Roedd rhywfaint o gefnogaeth "mewn egwyddor" yn seiliedig ar amodau penodol, gan gynnwys: dylai cost offer fod yn rhesymol, rhaid i unrhyw offer monitro electronig o bell (REM) fod yn ddibynadwy ac yn hawdd ei ddisodli, dylai gofynion REM fod yn gymesur ac wedi'u teilwra i'r cwch, ni ddylai systemau REM gynnwys camerau sy'n cofnodi gweithgarwch ar y dec.

Nododd dau ymatebydd gyfleoedd i wella gwaith cofnodi dalfeydd, gan gynnwys dileu'r gofynion ar gyfer cofnodion papur ar gyfer rhai cychod.

Awgrymodd un person esemptiad ar gyfer plymio i ddal â llaw a chasglu ar gyfer ffermio môr.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar gostau ychwanegol diangen a chymhlethdod i bysgotwyr (yn enwedig pysgotwyr ar raddfa fach) yn ogystal â bod yn ymosodiad ar breifatrwydd (yn ôl pob tebyg yn cyfeirio at elfen camera y rhan fwyaf o systemau REM).

Nododd un pysgotwr gyda chwch o dan 10m y byddai system electronig arall ar ei gwch yn ychwanegu annibendod a bod problemau gyda systemau electronig yn y gorffennol a oedd wedi lleihau gweithgarwch pysgota.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno tymor neu dymhorau caeedig amrywiol ar gyfer cregyn bylchog ym mharth Cymru a newid y cyfnodau caeedig tymhorol ar y môr fel bod y bysgodfa ar gau rhwng 1 Mai a 31 Hydref bob blwyddyn er mwyn diogelu'r stoc yn ystod y cyfnod silio?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag

7	29	3	3	1	81%	8%	8%	3%
---	----	---	---	---	-----	----	----	----

Ymhlith y themâu cyffredin yn y rhesymau a roddwyd dros y gefnogaeth gref i'r cynnig hwn roedd symleiddio llusgrwydo am gregyn bylchog ym mharth Cymru, caniatáu digon o amser i gynefinoedd benthig adfer rhwng tymhorau pysgota agored a diogelu stoc yn ystod silio. Nododd sawl ymatebydd yr angen am dystiolaeth gref ar gyfer unrhyw newidiadau i'r tymor caeedig (ar gyfer llusgrwydo).

Cyfeiriodd sawl ymatebydd, p'un a oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio, faterion diweddar a oedd yn deillio o newidiadau i'r cyfnodau caeedig tymhorol ar gyfer cregyn bylchog yn y Sianel. Cynghorwyd bod yn ofalus i osgoi dadleoli, dull gweithredu teg ar gyfer gwahanol fathau o gychod/dulliau pysgota a chanlyniadau anfwriadol fel tarfu ar y farchnad.

O'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn, y prif reswm oedd amrywioldeb y mesur yn hytrach na'r dyddiadau a gynigiwyd.

Mynegodd sawl ymatebydd gefnogaeth i ddatblygu pysgodfa plymio i ddal â llaw a defnyddio hyblygrwydd ar gyfer cyfnodau caeedig tymhorol i wneud hynny.

Rhoddodd rhanddeiliad o Ynys Manaw dystiolaeth o arsylwadau diweddar sy'n awgrymu bod y cyfnod silio ar gyfer cregyn bylchog yn mynd yn hwyrach yn y flwyddyn ac y gallai'r tymor caeedig arfaethedig fod yn rhy gynnar.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cyfyngiadau amser (amser ar y môr neu amser yn pysgota) neu ardaloedd caeedig amrywiol o fewn parth Cymru?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Yd w	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
8	25	9	1	1	69 %	25%	3%	3%

Roedd llawer o'r sylwadau a oedd yn cefnogi'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar y manteision i gynefinoedd a rhywogaethau benthig o allu cyfyngu neu wasgaru gweithgarwch llusgrwydo.

Nododd nifer o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig hefyd amodau ar gyfer gweithredu cyfyngiadau tymhorol yn llwyddiannus gan gynnwys: sut mae'n cael ei gyfuno â mesurau eraill fel rheoli gofodol, yr angen i seilio penderfyniadau ar dystiolaeth, cynnwys pysgotwyr wrth ddylunio a gweithredu cyfyngiadau tymhorol a chyfathrebu penderfyniadau yn dryloyw.

Cyfeiriodd sawl ymatebydd yn gadarnhaol at bysgodfeydd yn Ffrainc, IFCA's Lloegr ac Ynys Manaw sy'n defnyddio mesurau tymhorol yn effeithiol.

Darparodd yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn sawl rheswm allweddol gan gynnwys: mae trefniadau cyrffw yn rhy gyfyngol ar ben y tywydd, y

llanw a ffactorau eraill, gallai cael amser prin i bysgota neu fod ar y môr wneud pysgota masnachol yn ariannol anhyfyw a gallai effeithio'n anghymesur ar rai cychod yn fwy nag eraill.

Cododd sawl ymatebydd bryderon y gallai cyfyngiadau tymhorol a roddir ar waith yn wael annog ymddygiad peryglus o ran y tywydd pan fydd rhai meysydd cregyn bylchog ymhell o'r lan.

Dywedodd un ymatebydd fod angen rhagor o fanylion am y cynnig er mwyn mynegi barn arno.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cyfyngiadau gofodol neu ardaloedd caeedig amrywiol o fewn parth Cymru?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
9	28	4	3	1	78%	11%	8%	3%

O'r mwyafrif a gefnogodd y cynnig hwn, cynghorodd sawl ymatebydd y byddai ei weithredu'n llwyddiannus yn dibynnu ar y canlynol: gwyddoniaeth a gwaith monitro priodol, cynnwys pysgotwyr wrth wneud penderfyniadau, ystyried effaith gronol gyda mesurau a physgodfeydd eraill, ac osgoi dadleoli a gorbysgota mewn ardaloedd nad ydynt ar gau.

Nododd un ymatebydd y defnydd o gau gofodol yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer ardaloedd 'stoc magu'.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai cau gofodol ar gyfer nodau rheoli dros dro fod yn gyfyngedig o ran amser gyda meini prawf tryloyw ar gyfer ailagor.

Nododd sawl person y manteision posibl o reoli cylchdro ar gyfer gwelyau cregyn bylchog gan ddefnyddio rheoli gofodol.

Rhoddodd rhanddeiliad yn Ynys Manaw fanylion am wersi a ddysgwyd ar gyfuno cyfyngiadau tymhorol a gofodol i wneud penderfyniadau rheoli yn seiliedig ar arolwg stoc a thystiolaeth lleoliad pysgota. Rhoddwyd enghreifftiau i amddiffyn ardaloedd â phoblogaeth fawr o gregyn bylchog ifanc ac er mwyn i ardaloedd sy'n cael eu gorbysgota fedru gorffwys.

Nododd sawl ymatebydd fod ardaloedd helaeth o ranbarth glannau Cymru eisoes ar gau i lusgrwydo am gregyn y brenin, gan gynnwys ardaloedd o Fae Ceredigion a gafodd eu cau pan nad oedd llusgrwydo am gregyn bylchog yn cael ei reoli gystal ac nid ydynt wedi'u hailagor. Cyfeiriodd un ymatebydd at ymchwil Prifysgol Bangor a allai gefnogi cylchdroi ardaloedd sydd ar gau ar hyn o bryd ym Mae Ceredigion.

Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr a atebodd na neu ddim yn gwybod i'r cwestiwn hwn hynny ar y sail nad oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys digon o fanylion ar y cynnig ar gyfer cyfyngiadau gofodol amrywiol. O'r cyflwyniadau hyn, rhoddodd rhai ymatebwyr

gyngor ar ba ffactorau y mae angen eu hystyried wrth roi mesurau o'r fath ar waith, gan gynnwys: natur dymhorol gwahanol métiers pysgota, dynameg y farchnad a chyflenwad cyson o gynnyrch, y rhyngweithio rhwng cyfyngiadau gofodol â mesurau eraill ac i osgoi pwysau gweithredol gormodol ar fusnesau pysgota yn sgil gwneud llawer o newidiadau i reolau ar unwaith.

Rhoddodd un ymatebydd gryn fanylion o ran y cyfyngiadau presennol i ardaloedd ar gyfer pysgota cregyn bylchog oherwydd ceblau telathrebu ac ynni gwynt ar y môr i dynnu sylw at y ddeinameg gymhleth i'w hystyried wrth roi cyfyngiadau gofodol pellach ar waith.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cyfyngiadau ymdrech amrywiol (maint injan, gallu tynnu, hyd y cwch) ar gyfer pysgota am gregyn y brenin ym mharth Cymru?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
10	29	3	2	2	81%	8%	6%	6%

Nododd sawl ymatebydd fod cyfyngiadau eisoes o ran hyd cwch a maint injan ar sail ardal ym mharth Cymru a byddai cael y gallu i addasu'r rhain yn offeryn defnyddiol. Mynegodd llawer o'r ymatebion hyn foddhad â'r cyfyngiadau ymdrech presennol (gweler fframwaith gorchymyn cregyn bylchog 2010) neu fe wnaethant gynghori rhag cymhlethdodau diangen.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor a gwnaethant fynegi barn y dylid rhesymoli rheoliadau presennol.

Awgrymodd un ymateb gyfyngu pysgota i gychod bach yn unig.

Nododd tri ymatebydd gapasiti tynnu yn hytrach na hyd y cwch neu bŵer injan fel y mesur allweddol.

Nododd rhai ymatebwyr y dylai newidiadau i fesurau amrywiol fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd rhai o'r rhai a wrthwynebodd y cynnig hwn yn meddwl bod y mesurau presennol yn ddigonol a/neu eisoes yn rhy gymhleth heb haen arall o ddeddfwriaeth i gydymffurfio â hi.

Nid oedd y ddau ymatebydd a atebodd 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn, yn teimlo bod y cynnig yn ddigon manwl.

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno gofynion ar gyfer cofnodi ac adrodd ar ddalfeydd cregyn bylchog ym mharth Cymru?

	Cyfanswm y ffigurau	Cyfanswm y canrannau
--	---------------------	----------------------

Rhif y cynnig	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
11	32	1	1	2	89%	3%	3%	6%

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Ymhlith y rhesymau a roddwyd roedd angen data amser real cywir ar gyfer rheoli addasol, gall data fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymchwil a dadansoddi gwyddonol.

Nododd un ymatebydd mai dim ond os caiff ei ddefnyddio y mae casglu data am ddalfeydd yn werth chweil.

Esboniodd rhanddeiliad yn Ynys Manaw y budd o adrodd amser real trwy ap cofnodi dalfa 'Nestform' ar Ynys Manaw i wneud penderfyniadau rheoli yn seiliedig ar ddwysedd pysgota. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill hefyd yn gadarnhaol at ddull Ynys Manaw.

Nododd sawl ymatebydd sut y gallai technoleg (REM, awtomeiddio cofnodi ac adrodd am ddalfeydd) helpu i reoli'r data a dderbynnir trwy gofnodi dalfeydd i'w gwneud yn haws i bysgotwyr a rheolwyr pysgodfeydd.

Codwyd dileu'r angen am lyfrau log papur ar gyfer cychod 10m-12m. Nodwyd hefyd y byddai'n ddymunol sicrhau cysondeb â gofynion cofnodi ac adrodd eraill pan fo hynny'n bosibl.

Dim ond un ymatebydd oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn ar y sail bod cofnodi dalfeydd eisoes yn ofniad ac mae haen ychwanegol o gofnodi ac adrodd am ddalfeydd yn ychwanegu cymhlethdod. Codwyd hyn hefyd fel pryder gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig.

Roedd yr ymatebydd a atebodd 'ddim yn gwybod' yn pryderu na ddylai pysgotwyr hamdden orfod adrodd am ddalfeydd.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno manylebau offer amrywiol ar gyfer pysgota am gregyn y brenin ym mharth Cymru a gosod isafswm maint o 75mm ar gyfer diamedr mewnlol modrwyau bol llusgrwyd?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
12	31	2	1	2	86%	6%	3%	6%

Cynghorodd rhanddeiliad o Ynys Manaw, er mai 75mm yw isafswm maint y cylch bol y rheoliad, maen nhw'n ystyried cynyddu hwn. Darparodd y rhanddeiliad hwn grynodedd defnyddiol o ganlyniadau treialon offer gyda gwahanol feintiau cylchoedd bol llusgrwydi. Bydd treialon pellach yn cael eu cynnal yn 2026, a gellir rhannu'r canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru.

Cynghorodd dau ymatebydd eu bod yn defnyddio llusgrwydi gyda modrwyau bol 80mm ac roeddent yn credu bod 80mm neu fwy eisoes yn safon y diwydiant. Mynegodd sawl ymatebydd gefnogaeth i gylch bol llusgrwydi 75mm o leiaf yn benodol i alinio ag awdurdodaethau cyfagos. Awgrymodd sawl ymatebydd y gallai fod digon o ymchwil eisoes i argymell isafswm maint cylch bol uwch gyda 85mm, 92mm a 97mm wedi'u hawgrymu fel opsiynau.

Ailadroddodd dau ymatebydd, er eu bod yn cefnogi'r mesur, y byddai'n well ganddynt ddileu llusgrwydo yn raddol neu wahardd llusgrwydo yn gyfan gwbl.

Roedd sawl ymatebydd yn gefnogol o natur amrywiol y mesur arfaethedig gan y byddai hyn yn caniatáu gwelliannau i effeithlonrwydd a detholusrwydd yn y dyfodol. Mynegodd ymatebwyr hefyd y gobaith y byddai dyluniad llusgrwydi cyffredinol yn cael ei ystyried ar gyfer gwelliannau, nid dim ond yr isafswm maint cylch bol.

Gwnaeth ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn hynny o safbwyntiau gwrthwynebol. Roedd un yn teimlo y dylid gwahardd yr holl llusgrwydo. Roedd y llall yn teimlo bod hyn yn ddiangen gan fod angen i bysgotwyr gael yr offer priodol ar gyfer yr MCRS beth bynnag ac mae'n fesur hunanreolaeth i bob pwrpas.

Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno terfyn amrywiol ar gyfer nifer y llusgrwydi y caiff cychod eu defnyddio i bysgota am gregyn y brenin ym mharth Cymru a gosod terfyn uchaf o 28 (14 ar bob ochr) ar gyfer llusgrwydi yn y rhan ar y môr o barth Cymru?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
13	28	5	1	2	78%	14%	3%	6%

Ffactor allweddol i'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig hwn oedd cyfyngu ar effaith llusgrwydo ar wely'r môr gyda sawl un yn dyfynnu ymchwil academiaidd ar y pwnc.

Mynegodd rhai ymatebwyr y farn y dylid gwahardd llusgrwydo neu ei ddileu yn raddol yn gyfan gwbl (p'un a oeddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig).

Roedd sawl ymatebydd yn annog y datblygiad a'r gofyniad am offer sy'n cael llai o effaith yn hytrach na therfyn llusgrwydo.

Nododd un ymatebydd bwysigrwydd gwybod nifer y llusgrwydi a ddefnyddir gan bob cwch i gyfrifo'r arwynebedd a ysgubwyd ar gyfer asesiad o'r effaith ar wely'r môr.

Nododd yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn bennaf yr effaith negyddol ar weithrediadau pysgota sydd wedi buddsoddi mewn cychod mwy sy'n gallu llusgo nifer uwch o llusgrwydi. Cynghorodd dau ymatebydd fod cychod modern gyda mwy o llusgrwydi a llai o 'ysgubiadau' yn fwy effeithlon, yn enwedig pan fo ymdrech wedi'i ganolbwyntio o ddau gwch llai i un. Fe wnaethon nhw ac ymatebydd arall hefyd awgrymu y gallai llai o llusgrwydi arwain at fwy o amser a dreulir yn llusgrwydo i

sicrhau'r un cynnyrch dalfa a allai fod yn wrthgynhyrchiol. Nodwyd hefyd y gofyniad i wneud y mwyaf o ddalfeydd yn ystod cyfnodau o dywydd da.

Nododd sawl person fod angen defnyddio'r cynnig hwn ochr yn ochr â chynigion eraill i sicrhau bod stociau'n cael eu diogelu.

Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynyddu'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS) ar gyfer cregyn y frenhines o 40mm i 55mm ym mharth Cymru?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
14	25	1	8	2	69%	3%	22%	6%

Cafodd y cwestiwn hwn y nifer uchaf o atebion 'ddim yn gwybod', sydd o bosibl yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn bysgodfa wahanol. Fodd bynnag, rhoddodd llawer o ymatebwyr safbwyntiau manwl i gefnogi'r cynigion.

Nododd sawl ymatebydd y credir bod y rhan fwyaf o bysgotwyr yn targedu cregyn y frenhines ar 55mm beth bynnag am resymau masnachol, gan gynnwys cynnyrch cig uwch, gwell pris ar y farchnad a phrosesu haws.

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at bapurau academaidd i gefnogi MCRS uwch ar gyfer cregyn y frenhines am sawl rheswm gan gynnwys: mwy o ddigwyddiadau silio, mwy o larfa o ansawdd uwch, gwrthsefyll cyfnodau gwael o recriwtio sy'n gyffredin i'r bysgodfa.

Cododd llawer o ymatebwyr nad yw'n bosibl sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw isafswm maint oherwydd y graddio mecanyddol a weithredir i ddalfeydd cregyn y frenhines. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn oddefiant rhesymol ar gyfer canran o gregyn y frenhines sy'n rhy fach mewn unrhyw ddalfa fel rhan o'r mesur pe bai'n cael ei gyflwyno.

Rhoddodd un ymatebydd wybodaeth ddefnyddiol o bysgodfa Ynys Manaw ynglŷn â'r niferoedd cymharol o gregyn y frenhines y mae angen eu dal ar y gwahanol feintiau er mwyn cael yr un pwysau o gig cregyn bylchog (~200 ar 55mm, ~500 ar 40mm).

Awgrymodd un ymatebydd gyflwyno newidiadau yn raddol i ganiatáu i'r diwydiant a'r farchnad addasu.

Nododd yr ymatebydd a gododd bryderon am gynyddu'r MCRS ar gyfer cregyn y frenhines y posibilrwydd y gallai'r mesur leihau dalfa werthadwy yn y tymor byr.

Awgrymodd sawl ymatebydd y gallai cregyn y frenhines elwa ar fesurau rheoli pellach. Nododd o leiaf ddau ymatebydd y tebygrwydd â chregyn y brenin a chodi'r posibilrwydd o un drwydded a fframwaith rheoli addasol ar gyfer y ddwy bysgodfa.

Cwestiwn 15: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddi-ddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. A ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? A ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Rhif y cynnig	Cyfanswm y ffigurau				Cyfanswm y canrannau			
	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag
15	6	4	18	8	17%	11%	50%	22%

Mae'r cwestiwn hwn yn cael ei gynnwys ym mhob ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylw.

Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd diwylliant a threftadaeth mewn cymunedau arfordirol gwledig a'r cyfle i adfer neu wella'r berthynas rhwng pobl Cymru a'r môr.

Cwestiwn 16: Yn eich barn chi, a ellid ffurfio'r cynigion neu eu newid er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylw neu nid oeddent yn credu y dylid gwneud unrhyw beth yn wahanol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal. Nid oedd un ymatebydd yn teimlo bod cyfieithiadau Cymraeg yn angenrheidiol.

Cwestiwn 17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac mewn manau eraill yn yr holiadur, mynegodd sawl cyflwyniad y farn y dylid cael gwared ar lusgrwydo am gregyn bylchog yn raddol neu ei wahardd yn llwyr yng Nghymru.

Dyweddodd un ymatebydd mai elfen bwysig o hyn fyddai'r angen am grŵp cynghori'r diwydiant, gyda rhywfaint o gyfrifoldeb i sicrhau bod gwelyau cregyn bylchog yn cael eu pysgota'n gynaliadwy.

Mynegodd un ymatebydd y farn nad yw Llywodraeth Cymru eisiau diwydiant cregyn bylchog hyfyw yn nyfroedd Cymru a bod yr ymgynghoriad hwn yn ymarfer ticio bocsys.

Gofynnodd un ymatebydd a ellid agor ardal gaeedig ar gyfer pysgota un diwrnod yr wythnos.

Themâu cyffredinol yn yr ymatebion

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi pob un o'r 14 cynnig.
- Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, p'un a oeddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu mesur penodol, leisio cefnogaeth i bysgodfeydd a reolir yn gynaliadwy a lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol.
- Mae angen i'r penderfyniadau rheoli pysgodfeydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
- Mae angen monitro ac adolygu effaith newidiadau i fesurau i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni.
- Mae tryloywder gwneud penderfyniadau a chynnwys rhanddeiliaid yr effeithir arnynt yn hanfodol.
- Wrth wneud unrhyw newidiadau i fesurau rheoli, mae angen i Weinidogion Cymru ystyried effeithiau cronol yr ystod gyfan o fesurau ar amrywiaeth o ganlyniadau posibl gan gynnwys: iechyd a gwydnwch stoc, cynefinoedd a rhywogaethau benthig a'r amgylchedd ehangach, costau a chymhlethdod i bysgotwyr, amodau'r farchnad.
- Wrth ddefnyddio mesurau amrywiol, mae angen i'r rhesymau dros hyn fod yn glir, yn rhesymol a lle bo'n bosibl, roi rhybudd mwyaf posibl am newidiadau i'r rhai yr effeithir arnynt.
- Ar y cyfan, ymddengys bod ymatebwyr yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r nod o greu fframwaith cydlynol newydd o fesurau rheoli addasol, gyda'r diben arweiniol o reoli pysgodfa cregyn bylchog yng Nghymru yn gynaliadwy.

Tystiolaeth ac ymchwil academaidd a ddyfynnwyd gan ymatebwyr

Jentoft, S., 2000. The community: A missing link of fisheries management. *Marine Policy*, 24(1), pp.53–60.

Pomeroy, R.S., Katon, B.M. a Harkes, I., 2001. Conditions affecting the success of fisheries co management: lessons from Asia. *Marine Policy*, 25(3), pp.197–208.
Boris Worm et al., Rebuilding Global Fisheries. *Science* 325, 578-585 (2009). DOI: 10.1126/science.1173146

<https://secure.toolkitfiles.co.uk/clients/40572/sitedata/Byelaws/23-Scallop-Dredging-Byelaw-XXIII.pdf>

Arnason, Ragnar. (2001). *Costs of Fisheries Management: Theoretical and Practical Implications*.

Bahri, T., Vasconcellos, M., Welch, D.J., Johnson, J., Perry, R.I., Ma, X. & Sharma, R., eds. 2021. Adaptive management of fisheries in response to climate change. *FAO Fisheries and Aquaculture Technical Paper No. 667*. Rome, FAO.

Beukers Stewart, B.D., Vause, B.J., Mosley, M.W.J., Rossetti, H.L. a Brand, A.R., 2005. Benefits of closed areas for scallops and other benthic fauna. *Marine Ecology Progress Series*, 298, tt.189–204.

Hilborn, R., 2010. Pretty good yield and exploited fishes. *Marine Policy*, 34(1), tt.193–196.

<https://www.islandinstitute.org/working-waterfront/commission-approves-lobster-size-rules/>

Hordyk, A., Ono, K., Valencia, S., Loneragan, N. a Prince, J., 2015. A novel length based empirical estimation method of spawning potential ratio (SPR), and tests of its performance, for small scale, data poor fisheries. *ICES Journal of Marine Science*, 72(1), tt.217–231.

Kaiser, M. J., Clarke, K. R., Hinz, H., Austen, M. C. V., Somerfield, P. J., & Karakassis, I. (2006). Global analysis of response and recovery of benthic biota to fishing. *Marine Ecology Progress Series*, 311, 1-14.
<https://doi.org/10.3354/meps311001>

Kindt-Larsen, L., Kirkegaard, E., a Dalskov, J. 2011. Fully documented fishery: a tool to support a catch quota management system. – *ICES Journal of Marine Science*, 68: 1606–1610.

van Helmond ATM, Mortensen LO, Plet-Hansen KS, et al. Electronic monitoring in fisheries: Lessons from global experiences and future opportunities. *Fish Fish*. 2019;00:1–28. <https://doi.org/10.1111/faf.12425>

Xing, L., Chen, Y., Zhang, C., Li, B., Shin, Y.J. a Ren, Y., 2020. Evaluating impacts of pulse fishing on the effectiveness of seasonal closure. *Acta Oceanologica Sinica*, 39, tt.89–99.

https://pure.bangor.ac.uk/ws/portalfiles/portal/82159732/Mainstreaming_Habitat_Management_Objectives_in_an_Ecosystem-Based_Approach_to_Management_of_Scallop_Fisheries.pdf

Ole R. Eigaard, Francois Bastardie, Niels T. Hintzen, Lene Buhl-Mortensen, Pål Buhl-Mortensen, Rui Catarino, Grete E. Dinesen, Josefine Egekvist, Heino O. Fock, Kerstin Geitner, Hans D. Gerritsen, Manuel Marín González, Patrik Jonsson, Stefanos Kavadas, Pascal Laffargue, Mathieu Lundy, Genoveva Gonzalez-Mirelis, J. Rasmus Nielsen, Nadia Papadopoulou, Paulette E. Posen, Jacopo Pulcinella, Tommaso Russo, Antonello Sala, Cristina Silva, Christopher J. Smith, Bart Vanelslander, Adriaan D. Rijnsdorp, The footprint of bottom trawling in European waters: distribution, intensity, and seabed integrity, *ICES Journal of Marine Science*, Volume 74, Issue 3, March-April 2017, tt. 847–865

https://www.legislation.gov.uk/nisr/2022/292/pdfs/nisr_20220292_en.pdf

Beukers Stewart, B.D. a Beukers Stewart, J.S., 2009. Principles for the management of scallop fisheries. *ICES Journal of Marine Science*, 66(1), tt.72–80

Brand, A.R., 2006. Scallop ecology: distributions and behaviour. Yn: Shumway, S.E. a Parsons, G.J. (gol.) *Scallops: Biology, Ecology and Aquaculture*. 2nd ed. Amsterdam: Elsevier, tt.651–744.

Bayer, S.R., Wahle, R.A., Jumars, P.A. a Brady, D.C. (2016) 'Measuring scallop fertilization success in the field: chamber design and tests', *Marine Ecology Progress Series*, 551, tt. 141–154. <https://doi.org/10.3354/meps11684>.

Beukers-Stewart, B.D., Mosley, M.W.J. a Brand, A.R. (2003) 'Population dynamics and predictions in the Isle of Man fishery for the great scallop, *Pecten maximus* (L.)', *ICES Journal of Marine Science*, 60(2), tt. 224–242. [https://doi.org/10.1016/S1054-3139\(03\)00005-5](https://doi.org/10.1016/S1054-3139(03)00005-5).

Beukers-Stewart, B.D., Vause, B.J., Mosley, M.W.J., Rossetti, H.L. a Brand, A.R. (2005) 'Benefits of closed area protection for a population of scallops', *Marine Ecology Progress Series*, 298, tt. 189–204. <https://doi.org/10.3354/meps298189>.
Browne, D., Murphy, S., McHugh, M., Chopin, N., Oliver, M., Minto, C. a Cosgrove, R. (2024) Assessment of scallop dredge ring size selectivity in the western English Channel fishery. [Report].

Bruns, I., Bartholomä, A., Menjua, F. a Kopf, A.J. (2023) 'Physical impact of bottom trawling on seafloor sediments in the German North Sea', *Frontiers in Earth Science*, 11, Article 1233163. <https://doi.org/10.3389/feart.2023.1233163>.

Chauvaud, L., Patry, Y., Jolivet, A., Cam, E., Le Goff, C., Strand, Ø., Charrier, G., Thébault, J., Lazure, P. a Gotthard, K. (2012) 'Variation in size and growth of the great scallop *Pecten maximus* along a latitudinal gradient', *PLoS ONE*, 7(5), e37717. <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0037717>.

Hart, D.R. (2003) 'Yield- and biomass-per-recruit analysis for rotational fisheries, with an application to the Atlantic sea scallop (*Placopecten magellanicus*)', *Fishery Bulletin*, 101, tt. 44–57.

Hiddink, J.G., Jennings, S., Sciberras, M., Bolam, S.G., McConnaughey, R.A., Mazor, T., Hilborn, R., Collie, J.S., Pitcher, C.R., Amoroso, R.O., Parma, A.M., Suuronen, P. a Rijnsdorp, A.D. (2017) 'Global analysis of depletion and recovery of seabed biota after bottom trawling disturbance', *Proceedings of the National Academy of Sciences of the United States of America*, 114(31), tt. 8301–8306. <https://doi.org/10.1073/pnas.1618858114>.

Hold, N., Robins, P., Szostek, C.L., Lambert, G., Lincoln, H., Le Vay, L., Bell, E. a Kaiser, M.J. (2021) 'Using biophysical modelling and population genetics for conservation and management of an exploited species, *Pecten maximus* L.', *Fisheries Oceanography*, 30(6), tt. 740–756. <https://doi.org/10.1111/fog.12556>.

Jenkins, S.R. a Brand, A.R. (2001) 'The effect of dredge capture on the escape response of the great scallop, *Pecten maximus* (L.): implications for the survival of undersized discards', *Journal of Experimental Marine Biology and Ecology*, 266(1), tt. 33–50. [https://doi.org/10.1016/S0022-0981\(01\)00344-8](https://doi.org/10.1016/S0022-0981(01)00344-8).

Lambert, G.I., Jennings, S., Kaiser, M.J., Davies, T.W. a Hiddink, J.G. (2014) 'Quantifying recovery rates and resilience of seabed habitats impacted by bottom fishing', *Journal of Applied Ecology*, 51(5), tt. 1326–1336. <https://doi.org/10.1111/1365-2664.12277>.

MacDonald, B.A., Thompson, R.J. a Bayne, B.L. (1987) 'Reproductive effort, value and cost in sea scallops (*Placopecten magellanicus*)', *Marine Biology*, 96, tt. 183–189. <https://doi.org/10.1007/BF00378981>.

Zhang, W., Porz, L., Yilmaz, R., Wallmann, K., Spiegel, T., Neumann, A., Holtappels, M., Kasten, S., Kuhlmann, J., Ziebarth, N., Taylor, B., Ho-Hagemann, H.T.M., Bockelmann, F.-D., Daewel, U., Bernhardt, L. a Schrum, C. (2024) 'Long-term carbon storage in shelf sea sediments reduced by intensive bottom trawling', *Nature Geoscience*, 17, tt. 1268–1276. <https://doi.org/10.1038/s41561-024-01454-9>.

Prifysgol Bangor (2015) Fisheries & Conservation Report: Scallop Stock Assessment and Management. Ar gael yn: <https://www.bangor.ac.uk/fisheries-conservation> (Cyrchwyd: 08 Rhagfyr 2025).

Bord Iascaigh Mhara (BIM) (2024) Assessment of scallop dredge ring size selectivity in the eastern English Channel fishery. December. Ar gael yn: <https://bim.ie/wp-content/uploads/2024/12/Assessment-of-scallop-dredge-ring-size-selectivity-in-the-eastern-English-Channel-fishery.pdf> (Cyrchwyd: 08 Rhagfyr 2025).

DEFRA (2024) Queen Scallop Fisheries Management Plan Consultation. Available at: https://consult.defra.gov.uk/fisheries-management-plans-1/queen-scallop-fmp-consultation/supporting_documents/Proposed%20Queen%20scallop%20FMP.pdf (Cyrchwyd: 08 Rhagfyr 2025).

Devon & Severn IFCA (2023) Scallop Spawning and Maturity Research Report. Devon & Severn Inshore Fisheries and Conservation Authority. Available at: <https://www.devonandsevernifca.gov.uk> (Cyrchwyd: 05.12.25)

Le Pennec, M., et al. (2003) 'Reproductive strategies of scallops', ICES Journal of Marine Science, 60(2), tt. 413–421. doi:10.1016/S1054-3139(03)00039-8.
Salomonsen, H., et al. (2015)